OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 553

## Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004

**Cwmpas y Rheoliadau**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gynhyrchion jam penodedig a chynhyrchion tebyg penodedig, a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n barod i'w cyflwyno i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliad arlwyo.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig a fwriedir ar gyfer gweithgynhyrchu mân gynnyrch popty, crystiau neu fisgedi.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gynnyrch sy'n dwyn y disgrifiad a nodir yn eitemau 8 i 11 o golofn 1 Atodlen 1 ac —

(a) y daethpwyd ag ef i mewn i Gymru —

(i) o Wladwriaeth AEE (ac eithrio'r Deyrnas Unedig), neu

(ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig, lle cafodd ei werthu'n gyfreithlon, ar ôl cael ei gynhyrchu'n gyfreithlon mewn Gwladwriaeth AEE; neu

(b) y daethpwyd ag ef i mewn i Gymru —

(i) o Aelod-wladwriaeth (ac eithrio'r Deyrnas Unedig), neu

(ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig, lle cafodd ei werthu'n gyfreithlon, ar ôl cael ei gynhyrchu'n gyfreithlon mewn Aelod-wladwriaeth, neu lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon.